

Mae'n wir nad ydwyf fardd, llai fyth yn fardd coronog, na mab, na brawd, na chefnider chwaith i'r un aelod o'r brid anrhydeddus hwnnw, eto gallaf erbyn hyn ymfrostio yn y ffaith 'mod i'n berchen coron bardd! Prin hefyd y gellir f'ystyried fel ryw fath o gasglwr coronog dyweder, neu'n gywirach hwyrach yn gasglwr coronau, canys pur anaml y daw pethau o'u bath ar y farchnad. Ac ar ddamwain y digwyddais daro ar yr un sydd gen i dan sylw.

Y duedd arferol ar derfyn rhawd ddaearol enillwyr y cyfryw lawryfion yw eu bod yn cael eu diogelu ymhlith trysorau teulu'r ymadawedig. Rhoi'r dyledus barch iddynt, eu harddel â balchder a'u trosglwyddo wedyn i'r disgynyddion o un genhedlaeth i'r llall. Eithriadad prin yw'r rhai sy'n llithro drwy'r rhwyd i ymddangos ar y farchnad agored. Mae'r un peth yn wir am gadeiriau barddol ond choelia i fyth nad yw'r rheini yn dod i'r golwg yn amlach na'r coronau.

Taeth hon i'm meddiant am fy mod i yn tueddu i fod yn greadur eithaf meddal ar brydiau a phan ddigwyddais daro arni yno yn ei thrueni fe dosturiais yn syth wrthi a'i phrynu yn y fan a'r lle am arian sychion. (Wel! Nid am grobris chwaith. Llai na phris y farchnad dydw i ddim yn amau - a chymryd y gellir rhoi pris ar bethau o'r fath.)

Nid yn unig fe dosturiais wrthi yn ei hunigrwydd a'i llesgedd ond, fel y buasai'r Hen Lyfr yn ei ddwedd, fe'i cymerais i'm 'tŷ fy hun yn llawen' i'w hymgeleddu gan ymdrechu orau gallwn i'w hadfer i'w hen a'i pluriod ogoniant. Dyma fel y bu.

Y mae gennym ni acw erbyn hyn gysylltiadau teuluol agos yn nhref Llandeilo ac achos o'r herwydd i gyrchu'n rheolaidd i Ddyffryn Tywi. Yn ddieithriad bron yn ystod yr ymweliadau rheini byddwn yn rhoi tro o gwmpas canolfan hynafolion 'The Works' yno yng ngwaelod y dref ac, yn amlach na pheidio, yn ildio i'r demtasiwn o brynu rhywbeth neu'i gilydd - pethau nad oes mo'u hangen arnom mewn gwirionedd, dim ond eu bod wedi digwydd mynd â'n ffansi ar funud gwan fel petai.

Yn ystod un o'n hymweliadau diweddar fe drawodd llygaid fy ngwraig ar eitem a oedd wedi ei gosod mewn sefyllfa beth o'r neilltu yno ond un er hynny a aeth â'n bryd yn llwyr yn syth.

'Edrych', meddai, 'dydi o'n drueni fod y math yma o beth yn cyrraedd lle fel hyn yn y diwedd? Mae'r cyfan mor oeraidd rywsut...'

Eitem ar stondin CJC, Rhif 14 oedd hi, heb yr un manylyn yn ei chylch, dim namyn label wrth gatyn o linyn yn nodi'n swta - *an old Eisteddfod Crown* - ac yna'r pris.

'Mi ddown ni'n ôl ati ar ôl gweld beth arall sydd yma', atebais innau'n wylidwrus, 'cystal i ni beidio â gwneud dim byrbwyll rhag i ni ddifaru.'

Wedi'r cwbl yn nhŷ 'The Works' yn Llandeilo y mae llawer o drigfannau a buom am dri chwarter awr a rhagor yn ffowla o 'stafell i 'stafell - heb ddod o hyd i undim arbennig arall chwaith.

Roedd cwpl o Saeson digon stwrllid yn snwyrion o'i chwmpas erbyn i ni ddychwelyd - ei wraig yn cael hwyl fawr yn gosod y goron ar ei phen gan holi ei gwr yn



goeglyd 'Would this make me look like a true Welsh bard I wonder?' ac ati, ac ati.

'Go brin y basa fo 'ngenath i,' ebychais innau dan fy ngwynt â'm gwaged yn dechrau berwi, 'prin fod gennynt ti ddigon rhwng dy glustiau weldi.'

Gwyddwn mai dyna'r math o dynged a fyddai yn ei haros pe disgynnai crair diddorol o'r fath i ddwylo anwar. Ei defnyddio efallai fel prop mewn pantomeim, yn goron ar ben y brenin drwg, neu fel addurn i ryw Philistiad dienwaededig mewn carnifal neu baréd ffansi. Onid oeddwn wedi gweld medal ddrama a enillwyd yn Eisteddfod Môn unwaith yn dioddef amarch nid annhebyg?

Roedd rhywun, rywle, rywbyrd maentumiais wedi gwastraffu gormod o'i ynni, wedi llafurio'n llawer rhy galed, wedi chwysu a stachu a phendroni wrth ymgodymu a'i awen, wedi treulio oriau digwsg uwchben ei greadigaeth arobryn i'w wobryn yn y diwedd weld terfyn mor ddi-nod, mor isel wael, mor ddianrhydedd.

A dyna ei chipio o dan eu trwynau a mynd â hi at y dyn oedd piau'r drol - o leiaf Reolwr y sefydliad - i holi tybed pa ostyngiad a allai ei gynnig ar y pris a nodwyd. (Peth ffôl wedi'r cwbl yw derbyn y pris cyntaf yn slafaid. Rhaid anelu bob gafael at ddeg y cant o leiaf o ras!) Er nad hawdd unrhyw adeg wrth reswm yw tynnu gwaged o garreg! Ond ar ôl dygn fargeinio fe lwyddwyd! Nid i achosi rhaeadr o waedlif, mae'n wir, ond i gytuno ar bris oedd yn ddigon derbynol gan y naill ochr fel y llall. Dydwn i ddim yn amau, cofier, na fyddwn i wedi gorfod mynd yn llawer dyfnach i 'mhoced petai ymdrech wedi ei gwneud i lanhau tipyn arni ymlaen llaw. Yn y cyflwr y'i prynwyd roedd hi'n hynod ddisglein, yn ymylu ar fod yn felynddu ei lliw, er y gellir cyflawni gwyrtiau rhyfeddol bob amser efo dim ond chwarter llond tun o SILVO neu o DURAGLIT! Ac fe wnaed hynny unwaith y cyrhaeddwyd gartre.'

Nid oes awgrym ar ei chyfyl i nodi ym mha eisteddfod yr enillwyd hi, na phryd chwaith y cynhaliwyd yr union eisteddfod honno. Prin efallai ei bod yn goron genedlaethol canys nid yw nod cyfrin Gorsedd Beirdd Ynys Prydain arni. Ond wedyn, o ystyried, ni osodir y nod cyfrin ar bob coron genedlaethol. Beth bynnag am hynny mae o wneuthuriad hynod gain mewn plât arian, yn eitha'r trom ei phwysau a chyda'r symbolau Cymreig, y delyn, y ddraig, y genhinen, dail y dderwen a'r fesen mewn boglynwaith celfydd o'i chwmpas a

chyda meini o liwiau emerallt a saffr a rwbï yn disgleirio hwnt ac yma. Onid coron genedlaethol, allai hi tybed fod yn un o hen goronau buddugol rhyw eisteddfod daleithiol go bwysig, un Môn dyweder, neu Eisteddfod Powys? Dyn yn unig a wŷr.

Ac eiddo pwy oedd hi'n wreiddiol? Yr un math o ateb a geir bron yn ddieithriad o holi unrhyw werthwr ynghylch unrhyw grair, ac ni thafwyd llawer o oleuni ar y mater yn Llandeilo chwaith - 'The only thing that I am prepared to tell you is that it came from a house clearance in the Swansea area.'

Ond pwy yn ardal Abertawe, a phle yn ardal Abertawe nid oedd modd gwybod.

Ai bardd bregethwr tybed? O rengoedd y dosbarth hwnnw yn amlach na pheidio yr hanai beirdd y cyfnod a fu. Neu brifathro ysgol gynradd hwyrach? A beth fu ei ddiwedd? Ai marw'n ddi-blant a dideulu? A fu raid gwerthu holl ciddo'r truan i dalu am ei gadw mewn cartref preswyl? Cwestiynau na cheir o bosibl fyth atebion iddynt a'r siawns o ddod o hyd i'r un cliw yn ei chylch mor anodd â chanfod y nodwydd honno mewn tas wair. Onid oes gan rywrai o blith darllenwyr cyhoeddiad fel *Y Casglwr*, dyweder, arweinid i'w gynnig. Fe allai'r llun ohoni sbarduno rywun, rywle.

Ond does dim dwywaith na chafwyd gwefr fawr o'i hennill unwaith gan rywun. Roedd honno'n foment lachar, yr awr felysa' gaed i'r enillydd. Fe'i coronwyd yn ôl braint a defod, mewn rhwysg ac mewn bri, a does dim sy'n sicrach nad etifeddodd ei wob safle o anrhydedd am flynyddoedd wedyn mewn cwpwrdd gwydr ystafell ffrynt yn rhywle, ar dop y dresar yn y parlwr gorau neu ar sillf ryw stydi, cyn i mi 'mhen cenedlaeth neu ddwy neu ragor wedyn ddod o hyd iddi'n ddigon gwael ei llun a'i lliw, yn llechu'n ddiymgeledd yn un o'r 'stafelloedd cefn yng nghanolfan gwerthu hen greiriau 'The Works' yn Llandeilo.

Erbyn hyn fodd bynnag fe'i symudwyd un can milltir a rhagor i fyny i'r gogledd a bellach fe ddechreuodd ymgartrefu yn Eifionydd lle derbynai'r parch a'r anrhydedd sy'n ddyledus iddi. Nid mor wael ei llun a'i lliw mwyach chwaith. Gorwedd ar glustog felfed borffor ar ôl cael gweddnewidiad llwyr. Ydi, mae'n syndod cymaint o wyrthiau y gellir eu cyflawni efo dim ond y mymryn lleief o DURAGLIT!

Gyda llaw, os oes rhywun o blith y darllenwyr a allai fod o unrhyw gymorth i ddatrys y dirgelwch, byddid yn dra diolchgar petai garediced â rhoi galwad ffôn i Borthmadog (01766 513620).